Adran dros Drafnidiaeth

# Nodiadau Canllaw ar Gwblhau'r Arolwg Cludo ar Ffyrdd Rhyngwladol (IRHS)

**Cyfarwyddiadau**
Bwriad y nodiadau hyn yw eich helpu i gwblhau holiadur yr Arolwg Cludo ar Ffyrdd Rhyngwladol (IRHS).

Os oes angen canllawiau pellach arnoch wrth gwblhau'r holiadur hwn, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r arolwg hwn, gallwch gysylltu â ni drwy'r manylion isod:

**Ffôn:** 0207 944 8580
**E-bost:** IRHS.STATS@dft.gov.uk
*(Dyfynnwch y cyfeirnod, ar frig ffurflen yr arolwg, ym mhob gohebiaeth)*

---

## Canllawiau ar gwblhau'r ffurflen

### Adran A: Manylion y cwmni

**Enw a chyfeiriad y cwmni:** Mae hyn yn dangos enw a chyfeiriad y cwmni a gofrestrwyd ar eich Trwydded Gweithredwr Rhyngwladol Safonol fel y cedwir gan yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) neu'r cyfeiriad rydych wedi gofyn i'r ffurflenni hyn gael eu hanfon iddo.

- Os yw'r cyfeiriad hwn yn anghywir, rhowch wybod i ni drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, gan gofio dyfynnu cyfeirnod y cwmni

**Cyfeirnod:** Rhif cyfeirnod unigryw yw hwn yr ydym yn ei ddefnyddio i adnabod eich cwmni.

**Cyfnod yr arolwg:** Mae hwn yn dangos y dyddiadau dechrau a gorffen y mae'r arolwg hwn yn cyfeirio atynt.

- **Rhaid i chi, <u>yn ôl y gyfraith,</u> gwblhau ffurflen arolwg ar gyfer pob cerbyd nwyddau trwm (dros 3.5 tunnell o 'bwysau ar blât')**, sydd wedi'i gofrestru i'r cwmni, sy'n gadael y DU (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) ar fôr neu drwy Dwnnel y Sianel yn ystod y dyddiadau hyn.

- Rhaid i'r dyddiad y mae'r cerbyd yn casglu ei lwyth cyntaf o nwyddau i'w symud tramor fod o fewn y dyddiadau penodol, ond **gall y dyddiad dychwelyd fod ar unrhyw adeg**.

- Os dechreuodd cerbyd o leiaf dwy daith gron ryngwladol o fewn y cyfnod penodol yna disgrifiwch bob taith gron ar ffurflen ar wahân.

- Mae taith ryngwladol yn dod i ben pan fydd yr olaf o'r nwyddau a lwythwyd tramor yn cael ei ddadlwytho yn y DU, neu, yn achos siwrneiau gwag, pan fydd y cerbyd yn dychwelyd i'w fan cartref neu'n dechrau aseiniad newydd.

- Os nad yw eich cwmni'n cynnal gweithgareddau cludo ar ffyrdd rhyngwladol mwyach, rhowch wybod i ni drwy ddefnyddio Adran B:

### Adran B: Manylion y Busnes

**Cwestiwn 1:** Rhowch amcangyfrif o nifer y teithiau rhyngwladol fydd **eich cwmni** yn eu gwneud yn y 12 mis nesaf ac ysgrifennwch y rhif hwn yn y blwch a ddarperir.

- Wrth amcangyfrifo, dylech gynnwys cyfanswm y teithiau rhyngwladol a wnaed gan eich cwmni, **<u>nid</u>** y rhai a wnaed gan y cerbyd dan sylw yn unig.

- Dylech gynnwys pob taith ryngwladol a wnaed gan eich cwmni mewn cerbydau rydych wedi'u llogi.

- Gallwch eithrio unrhyw deithiau a is-gontractiwyd i gwmnïau eraill.

**Cwestiwn 2:** Os nad yw eich cwmni'n cynnal gweithgareddau cludo ar ffyrdd rhyngwladol mwyach, nodwch pam drwy dicio'r opsiwn mwyaf priodol. Ticiwch **un** opsiwn yn unig:

- "Nid yw'r cwmni'n masnachu mwyach" - os yw'r cwmni wedi dod i ben â'i weithrediadau ac wedi rhoi'r gorau i fasnachu.

- "Mae'r cwmni'n ymgymryd â gwaith domestig yn unig" - os nad yw'r cwmni'n ymgyrmryd ag unrhyw waith rhyngwladol **o gwbl dan unrhyw amgylchiadau** ac yn ymgymryd â gwaith cludo yn y DU yn unig (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon). Mae hyn yn eithrio amgylchiadau lle nad oes llawer o alw am waith rhyngwladol neu mae wedi "dod i ben".

Ar ôl cwblhau'r cwestiwn hwn, ewch yn syth i Gwestiwn 10 (Cyswllt ac Ardystiad) ar dudalen 2, gan anwybyddu cwestiynau 3 i 9.

Os nad yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol i chi, ewch i Gwestiwn 3.

**Cwestiwn 3:** Os na ddefnyddiwyd unrhyw un o gerbydau'ch fflyd ar gyfer gwaith rhyngwladol yn ystod cyfnod yr arolwg, eglurwch pam drwy dicio'r dewis mwyaf priodol. Ticiwch **un** opsiwn yn unig.

Dim ond **un ffurflen arolwg** fydd angen i chi ei dychwelyd os na ddechreuwyd unrhyw waith rhyngwladol.

Ar ôl cwblhau'r cwestiwn hwn, ewch yn syth i Gwestiwn 10 (Cyswllt ac Ardystiad) ar dudalen 2, gan anwybyddu cwestiynau 4 i 9.

Os nad yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol i chi, ewch i Gwestiwn 4.

**Cwestiwn 4:** Eglurwch sut oedd y cerbyd hwn yn cael ei ddefnyddio yn ystod cyfnod yr arolwg drwy dicio:

- "Ar gyfrif eich hun" - os cafodd ei ddefnyddio i gludo nwyddau ar ran eich cwmni.

- "Am dâl a gwobr" - os cafodd ei ddefnyddio ar sail tâl a gwobr.

Ticiwch **un** opsiwn yn unig.

**Cwestiwn 5:** Eglurwch natur eich busnes:

- Os ticioch chi "Ar gyfrif eich hun" yng Nghwestiwn 4 - eglurwch natur y busnes y mae'r cerbyd hwn yn cludo nwyddau ar ei gyfer e.e cyfanwerthwr nwyddau trydanol, gwneuthurwr dodrefn, cynhyrchydd diodydd meddal ac ati.

- Os ticioch chi "Am dâl a gwobr" yng Nghwestiwn 4, yn syml, rhowch "Cludo Nwyddau".

**Cwestiwn 6:** Nodwch a yw eich cwmni'n cyflogi cyfanswm o lai na 10 person yn uniongyrchol yn y DU drwy dicio:

- "Ydy" - os yw'n cyflogi llai na 10 person

- "Nac ydy" - os yw'n cyflogi mwy na 10 person.

Wrth gofnodi nifer y cyflogeion yn eich cwmni, cofiwch gynnwys **eich holl gyflogeion uniongyrchol** gan gynnwys staff y swyddfa ac ati, nid y gyrwyr yn unig.

Ticiwch **un** opsiwn yn unig.

## Adran C: Gweithgarwch y Cerbyd

**Cwestiwn 7:** Nodwch:

- **Rhif cofrestru** y cerbyd rydych yn rhoi gwybodaeth amdano.
- **Y dyddiad a adawodd** y DU - y pwynt cyntaf a adawodd y cerbyd y DU (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon)
- **Y dyddiad a ddychwelodd** i'r DU.

**Cwestiwn 8:** Nodwch gapasiti pwysau'r cerbyd a'i gapasiti cludo:

- Mae "pwysau gros y cerbyd" yn cyfeirio at gyfanswm pwysau'r cerbyd (neu gerbyd a'i drelar) yn ogystal â'r uchafswm pwysau o lwyth y caniateir iddo ei gludo ar ffyrdd cyhoeddus.
- Mae "capasiti cludo" yn cyfeirio at gyfanswm pwysau'r llwyth y caniateir i'r cerbyd ei gludo ar ffyrdd cyhoeddus.

**Cofnodwch yr holl bwysau mewn cilogramau**.

**Cwestiwn 9:** Ticiwch y blwch sy'n disgrifio i'r graddau gorau ffurfweddiad echel a math corff y cerbyd a gafodd ei ddefnyddio ar gyfer teithiau yn ystod cyfnod yr arolwg hwn.

Ar gyfer cerbydau cymalog:

- Sicrhewch eich bod yn nodi math y trelar a ddefnyddiwyd. Os mai dim ond y tractor sy'n cael ei ddefnyddio ar daith i gasglu trelar neu ddim ond y tractor sy'n gadael y DU i gasglu trelar tramor, ticiwch ffurfweddiad y trelar cyntaf a ychwanegwyd.
- Os ydych yn newid math y trelar yn ystod wythnos yr arolwg, yna ticiwch y blwch ar gyfer y math cyntaf o drelar a ddefnyddiwyd.

Ticiwch **un** opsiwn yn unig.

## Adran D: Manylion y teithiau a wnaed gan y cerbyd

Dylid defnyddio rhan hon y ffurflen i gofnodi manylion y teithiau rhyngwladol a wnaed gan y cerbyd hwn yn ystod cyfnod yr arolwg a nodwyd yn Adran A, a'r nwyddau a lwythwyd a'u dadlwythwyd yn ystod y daith hon.

- Nodwch holl weithgareddau'r cerbyd drwy gydol y daith ryngwladol gyfan.
- Cwblhewch ffurflen ar wahân ar gyfer pob taith ryngwladol y mae pob cerbyd yn ei gwneud yn ystod cyfnod yr arolwg.

**Pa deithiau dylid eu cofnodi?**

Dylech **gofnodi manylion pob taith ryngwladol sy'n golygu bod y cerbyd wedi gadael y DU** (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) a theithio tramor **gan gynnwys** teithiau i, o neu ar Ynys Manaw, Guernsey a Jersey i gludo nwyddau'n rhyngwladol a dychwelyd i'r DU.

Dylech gofnodi pob taith a stop yn y DU sy'n golygu llwytho neu ddadlwytho nwyddau sydd i'w cludo tramor neu sydd wedi cael eu cludo tramor.

Er enghraifft, mae cerbyd yn teithio o Lundain i Baris ar fferi o Dover i Calais. Dylai'r daith ddangos y cod post yn Llundain fel tarddiad y daith a'r lleoliad ym Mharis (y man lle dadlwythodd y cerbyd ei nwyddau) fel y gyrchfan.

**Siwrne Allan:** Nodwch yn y lle priodol:

- Porthladd gadael y DU: Enw'r porthladd y gadawodd y cerbyd ohono yn y DU.
- Porthladd cyrraedd tramor: Enw'r porthladd y cyrhaeddodd y cerbyd ynddo tramor.

**Siwrne Yn Ôl:** Nodwch yn y lle priodol:

- Porthladd gadael tramor: Enw'r porthladd y gadawodd y cerbyd ohono tramor ar ei daith yn ôl i'r DU.
- Porthladd cyrraedd y DU: Enw'r porthladd y cyrhaeddodd y cerbyd ynddo yn y DU.

Ar gyfer siwrneiau allan ac yn ôl, os teithiodd y cerbyd o'r DU neu i'r DU drwy Dwnnel y Sianel, rhowch "CT" fel y porthladd gadael neu gyrraedd.

**Ar adael/dychwelyd i'r DU, a oedd eich cerbyd:** Ar adeg gadael neu gyrraedd y DU, os oedd y cerbyd:

- Yn teithio ar ei gapasiti llawn o ran lle, rhowch O (oedd). Fel arall rhowch N (nac oedd).
- Yn teithio ar ei gapasiti llawn o ran pwysau (capasiti cludo), rhowch O (oedd). Fel arall rhowch N (nac oedd).
- Yn teithio'n wag, rhowch O (oedd). Fel arall rhowch N (nac oedd).

Rhowch naill ai O neu N ym mhob colofn.

**Nodwch gyfanswm y pellter allan ac yn ôl:** Dyma'r pellter a deithiodd y cerbyd o'r adeg y cafodd y nwyddau (a oedd i'w dadlwytho tramor) eu llwytho yn gyntaf yn y DU i'r adeg y cafodd yr olaf o'r nwyddau (a lwythwyd tramor) eu dadlwytho yn y DU.

Mewn achosion o siwrneiau gwag allan neu yn ôl, cofnodwch y pellter y mae'r cerbyd yn gadael neu'n dychwelyd i'w darddiad, neu'n dechrau aseiniad newydd.

- Cofnodwch y pellter i un lle degol.
- Cofnodwch y pellter mewn **naill ai** cilometrau **neu** filltiroedd a dangoswch pa un drwy **roi llinell drwy'r** llall fel sy'n briodol.
- Rhowch y pellter a deithiodd y cerbyd **dan ei bŵer ei hun** gan eithrio pellteroedd a deithiodd ar fferri neu drên.

**Nodwch y gwledydd y teithiwyd trwyddynt:** Nodwch yr holl wledydd y teithiodd y cerbyd trwyddynt yn ystod y siwrne dan sylw. Mae 'teithio trwyddynt' yn golygu gyrru trwyddynt heb stopio i lwytho neu ddadlwytho:

- Cofnodwch y gwledydd y teithiodd y cerbyd trwyddynt drwy ysgrifennu blaenlythrennau'r wlad gan wahanu pob gwlad â choma e.e. Ffrainc = FR, Iwerddon = IE, Y Swistir = CH, Gweriniaeth Tsiec = CZ ac ati.

**Adran E: Y llwythi a gludwyd**

**Disgrifiad bras o'r nwyddau a gludwyd**: Rhowch ddisgrifiad bras o'r nwyddau a gludwyd. Er enghraifft, anifeiliaid byw, gwastraff aelwyd, post/parseli, llaeth crai, cynnyrch bwyd amrywiol, cynnyrch chwarelydda, peiriannau ar log ac ati.

- Os mai paledi gwag oedd y llwyth, neu gawellau gwifrau, cawellau rholio neu becynnu eraill, ysgrifennwch 'Pecynnu'.
- Os mai cynhwysydd llwythi gwag oedd y llwyth, ysgrifennwch 'Cynhwysydd Gwag'.

- Os oedd y cerbyd wedi'i ddadlwytho, ysgrifennwch 'Gwag'.

Os oedd y llwythi'n gymysg, dylid cofnodi'r prif fath o nwyddau os yw'n cynrychioli 75% (tri chwarter) o bwysau'r llwyth; dylid cofnodi llwythi cymysg eraill fel 'Grwpio'.

**A oedd y rhain yn nwyddau peryglus?** Cofnodwch a oedd y nwyddau a gludwyd yn cael eu hystyried yn beryglus drwy ychwanegu un o'r codau canlynol (gadewch yn wag os ydych yn ateb 'nac oedd')

| Cod | Disgrifiad | Cod | Disgrifiad |
|---|---|---|---|
| **Ffrwydron** | | **Ocsideiddion** | |
| 1 | Ffrwydryn | 5.1 | Ocsidydd |
| **Nwyon** | | 5.2 | Perocsid organig |
| 2.1 | Nwy fflamadwy | **Sylweddau gwenwynig** | |
| 2.2 | Nwy anfflamadwy, diwenwyn | 6.1 | Sylwedd gwenwynig |
| 2.3 | Nwy gwenwynig | 6.2 | Sylwedd heintus |
| **Hylif fflamadwy** | | **Deunydd ymbelydrol** | |
| 3 | Hylif fflamadwy | 7 | Deunydd ymbelydrol |
| **Soletau fflamadwy** | | Sylweddau cyrydol | |
| 4.1 | Solet fflamadwy | 8 | Sylwedd cyrydol |
| 4.2 | Sylwedd sy'n hylosgi'n ddigymell | **Nwyddau peryglus eraill** | |
| 4.3 | Sylwedd sy'n rhyddhau nwy fflamadwy wrth ddod i gysylltiad â dŵr | 9 | Nwyddau peryglus eraill |

**Math y Llwyth** Disgrifiwch sut caiff y nwyddau eu cludo drwy ysgrifennu un o'r codau canlynol yn y gwagle a ddarperir ar y ffurflen:

Dylid cofnodi llwythi cymysg fel OT.

| Cod | Disgrifiad | Cod | Disgrifiad |
|---|---|---|---|
| **LB** | Swmp Hylif | **PS** | Nwyddau sydd Eisoes wedi'u Pecynnu |
| **SB** | Llwyth Soled | **NP** | Nwyddau Heb eu Pecynnu ac unedau rhydd eraill e.e. da byw, ceir, peiriannau |
| **LFC** | Cynhwysyddion Llwythi Mawr, gan gynnwys Cynhwysyddion ISO | **RC** | Cawellau Rholio ac unedau rhydd eraill |
| **OFC** | Cynhwysyddion Llwythi Eraill, gan gynnwys Cawellau Pwrpasol | **OT** | Mathau Eraill o Lwythi gan gynnwys Cynwysyddion Cyfnewidiadwy, Bocsys, Cratiau a Silindrau neu lwythi cymysg |
| **PL** | Nwyddau ar Baledi | **NS** | Gwag |

**Pwysau'r nwyddau**: Cofnodwch **gyfanswm** pwysau'r nwyddau sy'n cael eu cludo ar gyfer pob llwyth:

- Dylai pwysau'r nwyddau gynnwys unrhyw becynnu neu gynhwysyddion.

- Ystyrir teithiau â llwythi o 'Becynnu' neu 'Gynhwysydd Gwag' yn deithiau wedi'u llwytho ac felly rhaid cofnodi'r pwysau.

- Os caiff llwythi o **darddiad sengl** eu cludo i **gyrchfannau amrywiol**, rhannwch bwysau pob llwyth yn ôl faint gafodd ei ddadlwytho ym mhob cyrchfan. **Peidiwch â rhoi un ffigur am gyfanswm pwysau'r llwythi a lwythwyd yn y tarddiad.**

- Os oedd y cerbyd yn teithio'n wag heb unrhyw lwythi o gwbl e.e. rhwng y man dadlwytho i'r man llwytho nesaf, nodwch y pwysau yn 0.

**Man llwytho/dadlwytho: Cod post NEU enw'r lle a'r wlad:** Cofnodwch y man priodol lle cafodd pob llwyth ei lwytho ac yna ei ddadlwytho **ar yr un llinell**. Os yw'r daith gyfan o fewn yr un lle, cofnodwch hyn yn y man llwytho yn ogystal â'r man dadlwytho.

Wrth gyfeirio at y lleoedd, rhowch y **cod post yn y DU lle bo'n bosibl**. Os nad yw ar gael ar gyfer gwledydd eraill, ysgrifennwch **enw'r lle a'r wlad**:

- Ar gyfer dinasoedd neu ardaloedd dinesig mawr: rhowch leoliad daearyddol mwy manwl (yn ogystal â'r wlad ar gyfer teithiau rhyngwladol) (e.e. Wembley (yn hytrach na Llundain) neu Petit-Montrouge, Ffrainc (yn hytrach na Pharis, Ffrainc) neu Blackford (yn hytrach na Chaeredin).

- Y tu allan i'r dinasoedd: rhowch leoliad daearyddol mwy manwl ynghyd â manylion y wlad (e.e. Amwythig, Shropshire neu Youghal, Iwerddon neu Lille, Ffrainc).

- Ar gyfer lleoliadau megis chwareli, depos neu ffermydd, neu lle nad oes cod post, rhowch enw'r lleoliad, yr annedd agosaf a'r sir (e.e. Fferm Downriver, Belfast)

**Peidiwch ag:**

- Ysgrifennu enw'r cwmni fel y tarddiad na'r cyrchfan.

- Defnyddio termau cyffredinol fel "Depo" na "Iard".

**Rhif y stop ar gyfer llwytho/dadlwytho:** Ym mhob rhes o lwythi, rhowch rif yn y golofn llwytho a dadlwytho i ddangos rhif y stop yn ystod y daith y cafodd y nwyddau hynny eu llwytho neu eu dadlwytho i'r/oddi ar y cerbyd. Dylid cofnodi'r tro cyntaf i'r cerbyd ddod i stop i naill ai llwytho neu ddadlwytho nwyddau fel rhif 1, ac i bob stop oddi ar hynny i naill ai llwytho neu ddadlwytho dylid rhoi'r rhif nesaf h.y. 2, 3, 4.

Dylid defnyddio rhestr o rifau **sengl sy'n cynyddu'n olynol**, ac ni ddylai unrhyw rif ymddangos mwy nag unwaith. Os cafodd nwyddau eu llwytho a'u dadlwytho yn yr un lleoliad, cofnodwch pa un bynnag a lwythwyd neu dadlwythwyd yn gyntaf gyda'r rhif isaf, yna cofnodwch pa un bynnag oedd y nesaf i'w lwytho neu ddadlwytho gyda'r rhif nesaf.

**Cerbydau gwag:** Sicrhewch eich bod yn cofnodi pob enghraifft o'r cerbyd yn symud pan fu'n wag.

Mae hyn yn cynnwys pan:

- adawodd y cerbyd y depo'n wag i fynd i'r stop cyntaf i gasglu llwyth

- teithiodd y cerbyd yn wag rhwng gollwng llwyth a chasglu'r llwyth nesaf

- dychwelodd y cerbyd yn wag o'r gollyngiad diwethaf yn ôl i'r depo

Dylid cofnodi manylion llwyth yn ystod symudiad o'r fath fel yr arfer, ond dylid rhoi'r disgrifiad 'Gwag', math o lwyth 'NS' a phwysau nwyddau o 0.

**Gweler enghreifftiau ar ddiwedd y canllawiau hyn.**

**<u>Adran F: Manylion cyswllt ac ardystiad</u>**

**Cwestiwn 10:** Rhowch fanylion yr unigolyn a gwblhaodd y ffurflen hon. Mae hyn yn ein galluogi i gysylltu â chi pe bai gennym unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r wybodaeth rydych wedi'i rhoi.

Dylai'r unigolyn sy'n cwblhau'r ffurflen hon ei llofnodi a rhoi'r dyddiad. Dychwelwch y ffurflen yn amserol gan ddefnyddio'r amlen ragdaledig a ddarperir.

**Cadwch gopi o'r arolwg wedi'i gwblhau rhag ofn y bydd rhaid i ni gysylltu â chi ynglŷn â'r wybodaeth rydych wedi'i rhoi, neu rhag ofn iddo fynd ar goll yn y post.**

**Gwybodaeth bellach**

Diolch am gwblhau'r ffurflen hon. Gwerthfawrogwn eich amser. Os oes angen canllawiau pellach arnoch wrth gwblhau'r holiadur hwn, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r arolwg hwn, gallwch gysylltu â ni drwy'r manylion isod:

**Ffôn:** 0207 944 8580
**E-bost:** IRHS.STATS@dft.gov.uk
*(Dyfynnwch y cyfeirnod a roddwyd ar yr arolwg ym mhob darn o ohebiaeth)*

Gellir gweld cyfres o gwestiynau cyffredin hefyd ynglŷn â'r arolwg yn:
https://www.gov.uk/government/publications/road-freight-domestic-and-international-statistics-guidance

**Enghreifftiau** *(at ddibenion esboniadol yn unig)*.
Enghraifft 1 Mae cerbyd yn gadael y DU o Borthladd Dover ac yn cyrraedd Calais, Ffrainc. Teithiodd drwy Ffrainc a'r Almaen, cyn dychwelyd i'r DU gan ddefnyddio'r llwybr o Calais i Dover.

**Adran D: Manylion y teithiau a wnaed gan y cerbyd**

| Y daith allan - o'r DU | | Ar adael y DU, a oedd eich cerbyd: | | | Y daith yn ôl - i'r DU | | Ar ddychwelyd i'r DU, a oedd eich cerbyd: | | | Nodwch gyfanswm y pellter allan ac yn ôl Km/~~Milltiroedd~~ *(Dilëir fel sy'n briodol)* | Nodwch y gwledydd y teithiwyd trwyddynt yn y blwch isod. e.e. **FR - Ffrainc, CH- Y Swistir,** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Porthladd gadael y DU | Porthladd cyrraedd tramor | Yn cario ei gapasiti llawn o ran Lle? (O/N) | Yn cario ei gapasiti llawn o ran Pwysau? (O/N) | Yn wag? (O/N) | Porthladd gadael tramor | Porthladd cyrraedd y DU | Yn cario ei gapasiti llawn o ran Lle? (O/N) | Yn cario ei gapasiti llawn o ran Pwysau? (O/N) | Yn wag? (O/N) | | FR, DE |
| DOVER | CALAIS | N | O | N | CALAIS | DOVER | O | N | N | 1230 | |

Nodir manylion taith y cerbyd, yr hyn a lwythodd a lle isod:

1. Mae'r cerbyd yn gadael Bryste [BS1 5TR] wedi'i lwytho â 2,000kg o ddodrefn y cartref.
2. Mae'r cerbyd yn cyrraedd ei gyrchfan derfynol, Watford, ac yn llwytho llwyth o gynnyrch metel strwythurol sy'n pwyso 13,000kg.
3. Mae'r cerbyd yn teithio i Munich ac yn dadlwytho'r llwyth o ddodrefn y cartref sy'n pwyso 2,000kg.
4. Mae'r cerbyd hefyd yn dadlwytho'r llwyth o gynnyrch metel strwythurol sy'n pwyso 13,000kg.
5. Mae'r cerbyd yn teithio o Munich yn wag.
6. Mae'r cerbyd yn dychwelyd i Fryste, yn wag.

**Adran E: Y llwythi a gludwyd**

| | Llwythi | | | | Man llwytho | | Man dadlwytho | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Disgrifiad bras o'r nwyddau a gludwyd E.e. bara, dodrefn, nwyddau'r cartref | A oedd y rhain yn nwyddau peryglus? Nodwch natur y nwyddau gan ddefnyddio'r codau yn y nodiadau ategol. | Math y llwyth e.e. ar baledi | Pwysau'r nwyddau Kg *nodwch yr uned a ddefnyddir os yn wahanol* | Cod post NEU enw'r lle a'r wlad | Rhif y stop | Cod post NEU enw'r lle a'r wlad | Rhif y stop |
| 1 | DODREFN Y CARTREF | | PL | 2,000 | BS1 5TR | 1 | MUNICH (DE) | 3 |
| 2 | CYNNYRCH METEL STRWYTHUROL | | PL | 13,000 | WATFORD, HERTFORDSHIRE | 2 | MUNICH (DE) | 4 |
| 3 | GWAG | | NS | 0 | MUNICH (DE) | 5 | BS1 5TR | 6 |

**Enghraifft 2**

Mae cerbyd yn gadael y DU o Borthladd Dover ac yn cyrraedd Calais, Ffrainc. Teithiodd drwy Ffrainc a’r Swistir, cyn dychwelyd i’r DU gan ddefnyddio’r llwybr o Calais i Dover.

| Y daith allan - o’r DU | | Ar adael y DU, a oedd eich cerbyd: | | | Y daith yn ôl - i’r DU | | Ar ddychwelyd i’r DU, a oedd eich cerbyd: | | | Nodwch gyfanswm y pellter allan ac yn ôl Km/~~Milltiroedd~~ *(Dilëir fel sy’n briodol)* | Nodwch y gwledydd y teithiwyd trwyddynt yn y blwch isod. e.e. **FR - Ffrainc, CH- Y Swistir,** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Porthladd gadael y DU | Porthladd cyrraedd tramor | Yn cario ei gapasiti llawn o ran Lle? (O/N) | Yn cario ei gapasiti llawn o ran Pwysau? (O/N) | Yn wag? (O/N) | Porthladd gadael tramor | Porthladd cyrraedd y DU | Yn cario ei gapasiti llawn o ran Lle? (O/N) | Yn cario ei gapasiti llawn o ran Pwysau? (O/N) | Yn wag? (O/N) | | FR, DE |
| DOVER | CALAIS | O | N | N | CALAIS | DOVER | O | N | N | 1836 | |

Nodir manylion taith y cerbyd, yr hyn a lwythodd a lle isod:

1. Mae’r cerbyd yn gadael Rhydychen [OX1 1BX] wedi’i lwytho â 1,800kg o ddarnau ceir.
2. Mae’r cerbyd yn cyrraedd ei gyrchfan derfynol, Farnham [GU9 7RN] ac yn llwytho 1,400kg o ddarnau ceir.
3. Mae’r cerbyd yn teithio i Lille, Ffrainc, i ddadlwytho’r 1,400kg o ddarnau ceir.
4. Mae’r cerbyd yn teithio i Winterthur, y Swistir, i ddadlwytho’r 1,800kg o ddarnau ceir.
5. Teithiodd y cerbyd o Winterthur yn wag.
6. Cyrhaeddodd y cerbyd Lille yn wag.
7. Yn Lille, llwythodd y cerbyd lwyth o ddarnau ceir yn pwyso 2,100kg.
8. Teithiodd y cerbyd i Essex [CM1 1QH] i ddadlwytho’r darnau ceir oedd yn pwyso 2,100kg.

| | Llwythi | | | | Man llwytho | | Man dadlwytho | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Disgrifiad bras o’r nwyddau a gludwyd E.e. bara, dodrefn, nwyddau’r cartref | A oedd y rhain yn nwyddau peryglus? Nodwch natur y nwyddau gan ddefnyddio’r codau yn y nodiadau ategol. | Math y llwyth e.e. ar baledi | Pwysau’r nwyddau Kg *nodwch yr uned a ddefnyddir os yn wahanol* | Cod post NEU enw’r lle a’r wlad | Rhif y stop | Cod post NEU enw’r lle a’r wlad | Rhif y stop |
| 1 | DARNAU CEIR | | PL | 1,800 | OX1 1BX | 1 | WINTERTHUR, Y SWISTIR | 4 |
| 2 | DARNAU CEIR | | PL | 1,400 | GU9 7RN | 2 | LILLE, FFRAINC | 3 |
| 3 | GWAG | | NS | 0 | WINTERTHUR, Y SWISTIR | 5 | LILLE, FFRAINC | 6 |
| 4 | DARNAU CEIR | | PL | 2,100 | LILLE, FFRAINC | 7 | CM1 1QH | 8 |